

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Adroddiad i:</b>	<b>Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu / Cyngor Sir</b>
<b>Dyddiad:</b>	<b>1 Medi 2020 / 8 Medi 2020</b>
<b>Pwnc:</b>	<b>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 2019/20 – Adroddiad y Cadeirydd</b>
<b>Pennaeth Gwasanaeth:</b>	<b>Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 01248 752601 <a href="mailto:MarcJones@ynysmon.gov.uk">MarcJones@ynysmon.gov.uk</a></b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Marion Pryor, Pennaeth Archwilio a Risg 01248 752611 <a href="mailto:MarionPryor@ynysmon.gov.uk">MarionPryor@ynysmon.gov.uk</a></b>
<b>Natur a Rheswm dros Adrodd:</b> Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu adrodd i'r rhai hynny 'sy'n gyfrifol am lywodraethiant' (y Cyngor Sir) asesiad o'i berfformiad a'i weithgareddau yn ystod y flwyddyn er mwyn dangos sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.	

## 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar weithgareddau'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn ystod 2019/20. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn elfen bwysig o drefniadau llywodraethiant y Cyngor. Mae adrodd ar ei weithgareddau'n helpu i ddangos fod y Cyngor yn awdurdod sy'n cael ei reoli'n dda sydd yn ei dro yn cyfrannu at sicrhau ei fod yn gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau.

## 2. Argymhelliad

2.1. Bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar gyfer 2019/20 cyn ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar 8 Medi 2020.

## Gwybodaeth Gefndirol

---

1. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn un o bwyllgorau statudol y Cyngor. Mae'n elfen allweddol o fframwaith llywodraethu'r Cyngor sy'n darparu adnodd annibynnol a lefel uchel i gefnogi llywodraethiant da a rheolaeth ariannol gyhoeddus gadarn.
2. Mae'r Pwyllgor yn darparu sicrwydd annibynnol i'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethiant ynghylch digonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risg, yr amgylchedd reoli fewnol ac uniondeb y drefn adrodd ariannol. Drwy oruchwylio archwilio mewnol ac allanol a rheoleiddwyr eraill, mae'n gwneud cyfraniad pwysig o ran sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithiol mewn lle.

## Llywodraethu

---

3. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw bod yn fodlon fod datganiadau sicrwydd yr awdurdod, yn cynnwys y datganiad llywodraethu blynyddol, yn rhoi gwir adlewyrchiad o'r amgylchedd risg ac unrhyw weithredoedd sydd eu hangen i'w wella, a dangos sut mae llywodraethiant yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion yr awdurdod.
4. Derbyniodd y Pwyllgor y Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018/19 cyn iddynt gael eu hadolygu gan yr Archwilwyr Allanol yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2019. Yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2019, ar ôl derbyn Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r Datganiad Cyfrifon a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018/19. Argymhellodd y Pwyllgor fod y Cyngor Llawn yn ei dderbyn a chyfeiriodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi, yn unol â'r gofyn statudol.
5. Mae dogfennau llywodraethu eraill a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

### **Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth 2018/19**

6. Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth dynodedig (SIRO) yn cynnwys dadansoddiad o'r prif faterion llywodraethu gwybodaeth ar gyfer y cyfnod ac yn cynnwys sicrwydd hefyd o welliant parhaus o ran rheoli risg gwybodaeth yn ystod y cyfnod.
7. Ar ôl derbyn eglurhad ynghylch y costau ynghlwm ag ymateb i'r 1,052 cais Rhyddid Gwybodaeth ac a yw peidio â bod yn ddigon agored neu dryloyw o ran argaeledd gwybodaeth yn ffactorau y gellir ei briodoli i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a mabwysiadu argymhellion yr adroddiad.

## **Pryderon, Cwynion a Chwythu'r Chwiban 2018/19**

8. Ar 3 Medi 2019, roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro yn darparu gwybodaeth am faterion yn codi dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd, ond dim ond y rhai hynny lle nad oedd yr achwynydd yn ddefnyddiwr gwasanaeth.
9. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad fel un a oedd yn rhoi sicrwydd rhesymol fod y Cyngor yn cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi/Canllawiau Chwythu'r Chwiban a derbyniwyd a nodwyd y Tabl Gwersi a Ddysgwyd yn yr adroddiad.

## **Derbyn Polisiâu 2018/19**

10. Ar 3 Medi 2019, cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a oedd yn cynnwys manylion am gydymffurfiaeth â'r ail gylch o bolisiau a gyflwynwyd i'w cymeradwyo drwy gyfrwng system reoli Porth Polisi'r Cyngor, yn ogystal â lefelau cydymffurfiaeth y Gwasanaeth Dysgu ar gyfer y cylch cyntaf o bolisiau. Roedd yr adroddiad yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor fod aelodau unigol o staff yn darllen, deall a derbyn yn ffurfiol bolisiau Llywodraethu Gwybodaeth allweddol. Derbyniodd y Pwyllgor y sicrwydd yn dilyn derbyn eglurhad pellach ynghylch sut yr oedd lefelau cydymffurfio'n cael eu monitro ar draws y Cyngor.

## **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2018/19**

11. Ar 3 Medi 2019, derbyniodd y Pwyllgor sicrwydd gan yr Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch Corfforaethol fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar gyfer materion iechyd a diogelwch, drwy nodi'r ymrwymiad, y gallu a'r cyfeiriad o ran rheoli iechyd a diogelwch galwedigaethol. Wrth drafod yr adroddiad, gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch digwyddiadau RIDDOR, cyfrifoldeb am ddiogelwch personol Cynghorwyr a'r cynnydd mewn digwyddiadau treisgar.
12. Ar 23 Ebrill 2019, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad dilyn i fyny i'r Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2017/18. Roedd yr adroddiad dilyn i fyny yn darparu dadansoddiad pellach mewn perthynas â materion a godwyd gan y Pwyllgor pan gyflwynwyd yr adroddiad iddo ym mis Chwefror 2019, ynghlŷn â'r categorïau 'Ymosodiadau Corfforol gan Berson' a'r cynnydd ymddangosiadol yn nifer yr achosion o drais corfforol ac a oedd y cynnydd yn arwydd o duedd sy'n esblygu.

## **Adroddiad Blynyddol Diogelwch Seibr 2018/19**

13. Ar 3 Rhagfyr 2019, cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaeth TG a Rheoli Perfformiad ei adroddiad, a oedd yn crynhoi'r bygythiadau seibr sy'n wynebu'r Cyngor gan roi trosolwg o rai o'r mesurau lliniaru sydd ar waith gan y Cyngor i daclo'r bygythiadau hyn. Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r adroddiad fel un addysgiadol, a cheisiodd

sicrwydd pellach mewn perthynas â nifer o faterion gan gynnwys gwaith partneriaeth a chydweithio, trefniadau anwytho TG a pha mor agored yw'r Cyngor i dwyll.

### **Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2018/19**

14. Ar 23 Gorffennaf 2019, cyflwynodd y Rheolwr Risg ac Yswiriant grynodedb o'r hawliadau yn erbyn y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2019. Roedd yr adroddiad yn darparu sylwadau hefyd ar dueddiadau mewn hawliadau a heriau i'r dyfodol.
15. Ar ôl derbyn eglurhad ynghylch yswiriant anaf personol, cronfeydd wrth gefn, hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a dysgu gwersi, derbyniwyd a nodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor.

### **Polisi Gwirio ar Sail Risg**

16. Ym mis Rhagfyr 2019, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Rheolwr Budd-daliadau yn gofyn am farn y Pwyllgor ynghylch polisi newydd y Cyngor, a oedd yn ceisio canolbwyntio adnoddau ar wirio'r achosion budd-daliadau hynny lle mae anghysonderau/camgymeriadau'n debygol o ddigwydd, cyn i'r Rheolwr Budd-daliadau ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith er cymeradwyaeth. Yn dilyn trafodaeth ynghylch methodoleg o ran ystod oedran a chais i gynnwys trefniadau samplu ar hap, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r Polisi Gwirio ar Sail Risg ar gyfer Budd-dal Tai / Gostyngiadau'r Dreth Gyngor gyda dau argymhelliad.

## **Rheoli Risg**

---

17. Mewn perthynas â rheoli risg, swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw ystyried effeithlonrwydd trefniadau rheoli risg yr awdurdod a'r amgylchedd rheoli, adolygu proffil risg y sefydliad a chael sicrwydd bod rheolwyr yn cymryd y camau priodol ar faterion yn ymwneud â risg, yn cynnwys partneriaethau a chydweithio â sefydliadau eraill.
18. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol benodi Pwyllgor â chyfrifoldeb am adolygu ac asesu trefniadau rheoli risg, mesurau rheoli mewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd yn nodi'r angen iddo fodloni'r gofynion hyn.
19. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gefnogi datblygiad y fframwaith Rheoli Risg o fewn y Cyngor yn ystod y flwyddyn ac adolygodd Ddatganiad Polisi Rheoli Risg y Cyngor yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2019. Penderfynwyd derbyn y Datganiad Polisi Rheoli Risg fel y'i cyflwynwyd ac argymhell fod y Pwyllgor Gwaith yn ei gymeradwyo.
20. Ystyriodd y Pwyllgor risgiau corfforaethol y Cyngor ddwywaith yn ystod y flwyddyn, ar 3 Medi 2019 a 11 Chwefror 2020. Ym mis Medi 2019, ar ôl derbyn eglurhad ynghylch sut y byddai'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn penderfynu pa risgiau y byddai'n

eu hadolygu bob mis, trafodaeth ynghylch goddef y tri phrif risg, y term 'trychinebus' a rheoli'r risgiau hyn, a'r amserlen ar gyfer cyflwyno mesurau lliniaru ar gyfer Brexit, cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cydnabod ac yn rheoli'r risgiau i nodau ac amcanion y Cyngor.

21. Ym mis Chwefror 2020, ar ôl derbyn eglurhad ynghylch cydnabod yr achosion o Coronafeirws fel risg yn y Gofrestr Risg Gorfforaethol a chais am ddiweddariad ynghylch y Polisi Gwirio Risg, cafodd y Pwyllgor sicrwydd fod yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cydnabod ac yn rheoli'r risgiau mewn perthynas â chyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

## Datganiadau Ariannol

---

22. Mewn perthynas â datganiadau ariannol, swyddogaeth graidd y Cyngor yw adolygu'r datganiadau ariannol, barn yr archwiliwr allanol ac adroddiadau i aelodau, a monitro gweithredoedd rheolwr mewn ymateb i'r materion a godwyd gan archwilwr allanol.
23. Derbyniodd y Pwyllgor Datganiad o Gyfrifon drafft ar gyfer 2018/19, cyn iddynt gael eu harchwilio, yn ei gyfarfod ar 23 Gorffennaf 2019. Ar ôl cael eglurhad ynghylch y gostyngiad ym malansau ysgolion, pwysau yn gysylltiedig â thâl athrawon, y Rhaglen Foderneiddio Ysgolion a rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn, penderfynodd y Pwyllgor nodi'r datganiadau ariannol drafft nas archwiliwyd ar gyfer 2018/19.
24. Ar 3 Medi 2019, adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth / Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor y llwyddwyd i gwrdd â'r dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r cyfrifon archwiliedig ar gyfer 2018/19.
25. Yn yr un cyfarfod, cyflwynodd yr Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Allanol ar gyfer yr Archwiliad Ariannol adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19 (adroddiad ISA 260) i'r Pwyllgor ei ystyried. Cadarnhaodd yr Arweinydd Ymgysylltu, yn amodol ar gwblhau'r gwaith sy'n weddill yn foddhaol, mai bwriad yr Archwiliwr Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol unwaith y bydd yr Awdurdod wedi cyflwyno Llythyr Sylwadau yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
26. Ar ôl derbyn eglurhad ynghylch taliad a wnaed i'r Gronfa Bensiwn (camddatganiad amherthnasol), dull yr Awdurdod mewn perthynas â diogelwch cyfrineiriau a mesurau rheoli cyfrineiriau ac argymhellion archwilio allanol sy'n weddill, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn a nodi'r Datganiad Cyfrifon ar gyfer 2018/19. Penderfynodd hefyd argymhell fod y Cyngor Llawn yn ei dderbyn, a nodi Adroddiad yr Archwilwyr Allanol ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2018/19 ac i gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol ar gyfer 2018/19 a chyfeirio'r Datganiad at Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr i'w lofnodi.

## Rheoli Trysorlys

---

27. Mae'r pwyllgor archwilio hefyd yn cefnogi'r Cyngor drwy ymgymryd â rôl ehangach o adolygu a monitro trefniadau rheoli trysorlys yn unol â Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Côt Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sector (CIPFA, 2017).
28. Yn unol â'i gylch gorchwyl a Chôt Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (2011), ystyriodd y Pwyllgor yr Adolygiad Blynyddol o Weithgareddau Rheoli Trysorlys ar gyfer 2018/19. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) yr adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried a chraffu arno yn unol â'r rheoliadau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a Chynllun Dirprwyo Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2018/19 ar 23 Gorffennaf 2019.
29. Ar ôl derbyn eglurhad ynghylch y tanwariant ar y gyllideb gyfalaf a'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw, nododd y Pwyllgor y byddai'r ffigyrau alldro yn yr adroddiad yn parhau i fod yn ffigyrau dros dro nes y byddai'r archwiliad o'r Datganiad Cyfrifon 2018/19 wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo; byddai unrhyw addasiadau sylweddol i'r ffigyrau sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad yn cael eu hadrodd arnynt fel bo'n briodol. Nododd y Pwyllgor hefyd y dangosyddion darbodus a thrysorlys dros dro ar gyfer 2018/19 yn yr adroddiad a chytunwyd i'w argymhell i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw.
30. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Rheoli Trysorlys canol blwyddyn yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2019 i fonitro datblygiadau a thueddiadau. Eglurodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 weithgareddau buddsoddi'r Cyngor gyda Chyngor yn Lloegr y cafwyd adroddiadau amdano yn y wasg yn ddiweddar, a nodwyd yr eglurhad gan y Pwyllgor.
31. Craffodd y Pwyllgor ar Ddatganiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2019/20 ar 11 Chwefror 2020. Yn dilyn sylw am wireddu asedau nad oedd eu hangen bellach, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn y Datganiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2020/21 ac argymhell y Datganiad i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.
32. Ar 11 Chwefror 2020, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ddatganiad o Arferion Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn unol â Chod Ymarfer CIPFA ar Rheoli Trysorlys (2017). Yn dilyn eglurhad ynghylch pwerau cyffredinol y Cyngor i fuddsoddi, cyfleusterau gorddrafft y Cyngor, statws credyd awdurdodau lleol a manylion yr Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys/Gwasanaeth Ymgynghorol arbenigol, cymeradwyodd y Pwyllgor yr Arferion Rheoli Trysorlys diwygiedig a phenderfynodd eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith heb unrhyw sylw pellach.
33. Wrth graffu ar yr adroddiadau uchod, adolygodd y Pwyllgor y risgiau sy'n wynebu'r Cyngor a'i allu i reoli risg mewn perthynas â'i weithgareddau Rheoli Trysorlys.

## Archwilio Mewnol

---

34. Mewn perthynas â swyddogaethau archwilio mewnol yr awdurdod, swyddogaeth graidd y Pwyllgor yw goruchwyllo ei annibyniaeth, ei wrthrychedd, ei berfformiad a'i broffesiynoldeb, cefnogi effeithiolrwydd prosesau archwilio mewnol a hyrwyddo effeithiolrwydd y broses archwilio mewnol a hyrwyddo defnydd effeithiol o archwilio mewnol o fewn y fframwaith sicrwydd.
35. Mae ganddo rôl hefyd i gefnogi cysylltiadau effeithiol rhwng archwilio allanol ac archwilio mewnol, asiantaethau arolygu a chyrrff perthnasol eraill, a chymryd camau pendant i hyrwyddo gwerth y broses archwilio.
36. Derbyniodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19 y Pennaeth Archwilio a Risg yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill. Yn dilyn trafodaeth ynghylch effeithiolrwydd y Pwyllgor ei hun ac a ellid ystyried ei fod yn ddigon rhagweithiol, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn barn archwilio cyffredinol y Pennaeth Archwilio a Risg mewn perthynas â pha mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu, trefniadau rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.
37. Cymeradwyodd y Pwyllgor fân newidiadau i'r Siarter Archwilio Mewnol yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2019.
38. Nododd y Pwyllgor y Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft ar gyfer 2020/21 yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2020, gan dderbyn bod yr ymagwedd a'r blaenoriaethau a amlinellwyd yn cwrdd ag anghenion sicrwydd y Cyngor.
39. Adroddodd y Pennaeth Archwilio ar Risg ar ganlyniadau pob aseiniad archwilio i bob un o gyfarfodydd arferol y Pwyllgor fel rhan o'r adroddiad diweddarau ar archwilio mewnol. Roedd yr adroddiadau hefyd yn cynnwys manylion am gynnydd y gwasanaethau wrth weithredu'r gweithredoedd rheolwyr er mwyn mynd i'r afael â'r 'Materion/Risgiau' a godwyd gan Archwilio Mewnol a bob chwech mis derbyniodd y Pwyllgor adroddiad manwl ar yr holl 'Faterion/Risgiau' 'Coch' ac 'Ambr' a godwyd gan Archwilio Mewnol ac oedd yn parhau i fod angen sylw.

## Archwilio Allanol

---

40. Swyddogaethau craidd pwyllgor archwilio yw ystyried adroddiadau ac argymhellion archwilio allanol ac asiantaethau arolygu a'u goblygiadau o ran llywodraethiant, rheoli risg neu fesurau rheoli.
41. Archwiliwr Cyffredinol Cymru yw archwiliwr allanol statudol y Cyngor. Mae rôl yr Archwiliwr Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut mae'n sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a pha mor dda mae'r Cyngor yn cynllunio ar gyfer gwella.



42. Yn ei gyfarfod ar 23 Ebrill 2019, cyflwynodd y Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, y Cynllun Archwilio arfaethedig ar gyfer blwyddyn archwilio 2018/19. Roedd yn cynnwys gwaith arfaethedig mewn perthynas ag archwilio ariannol, amlinelliad o'r rhaglen archwilio perfformiad ac amserlen ar gyfer cwblhau ac adrodd ar waith archwilio allanol yn yr Awdurdod. Ar ôl derbyn cadarnhad fod yr archwiliad ariannol yn cael ei gyflawni gan Deloitte ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, a bod y rhaglen archwilio perfformiad yn cael ei chyflawni gan Archwilio Cymru, gofynnodd y Pwyllgor i adroddiadau yn y dyfodol wahaniaethu rhwng y meysydd gwaith archwilio o ran y ffioedd a godir.
43. Adroddodd Archwilio Cymru i'r cyfarfod ar 23 Gorffennaf 2019 bod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn ystod 2019/20 mewn perthynas â gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.
44. Hefyd ym mis Gorffennaf 2019, cyflwynodd Archwilio Cymru adroddiad archwilio mewnol ar ganfyddiadau ei archwiliad o'r camau y mae'r Cyngor yn eu cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant, sef hyrwyddo Ynys Môn ac annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr Ynys. Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad fel un a roddai asesiad cadarnhaol ar y cyfan o waith y Cyngor wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ymdrech i hyrwyddo Ynys Môn i annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr Ynys.
45. Mae Deloitte, ar ran yr Archwiliwr Cyffredinol, yn cyflawni gwaith archwilio ariannol. Adroddodd ar ei fwriad i gyhoeddi adroddiad archwilio diamedd ar y datganiadau ariannol ar gyfer 2018/19 yn y cyfarfod ar 3 Medi 2019. Wedi hynny, cafodd y Llythyr Archwilio Mewnol Blynyddol ar gyfer 2018/19 a thystysgrif yn cadarnhau bod y broses o archwilio cyfrifon 2018/19 wedi'i chwblhau ei gyflwyno i'r cyfarfod ar 3 Rhagfyr 2019, er gwybodaeth.
46. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn ac ystyried adroddiadau diweddarau rheolaidd gan Archwilio Cymru a Deloitte. Mae hon yn agwedd bwysig o waith y Pwyllgor i sicrhau fod y Cyngor yn ystyried yr holl adroddiadau allanol, naill ai yn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu neu un o'r Pwyllgorau Sgriwtini, a bod camau priodol yn cael eu cymryd.

## Gwrthsefyll Twyll a Llygredd

---

47. Mae'n ofynnol i'r pwyllgor adolygu effeithiolrwydd trefniadau chwythu'r chwiban y cyngor, gan gynnwys y polisi, ei strategaeth atal twyll a llygredd, gweithredoedd ac adnoddau, risgiau o ran twyll a llygredd, ac am oruchwyllo unrhyw feysydd sylweddol o dwyll a monitro cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau mewn mesurau rheoli.
48. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar faterion yn codi dan Bolisi Pryderon a Chwynion y Cyngor yn ei gyfarfod ar 3 Medi 2019 a derbyniodd sicrwydd fod y Cyngor yn



cydymffurfio â'r prosesau sy'n ofynnol dan ei Bolisi Pryderon a Chwynion a Pholisi/Canllawiau Chwythu'r Chwiban.

49. Ni chyflwynwyd unrhyw adroddiadau ynghylch achosion o dwyll sylweddol a gyflawnwyd yn erbyn y Cyngor i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.
50. Mae Archwilio Mewnol yn cynnwys asesiad o risgiau twyll yn ystod pob archwiliad, ac adroddwyd arnynt i'r Pwyllgor yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Ni nodwyd unrhyw risgiau sylweddol o dwyll. Yn ogystal, cynhaliodd Archwilio Mewnol archwiliad penodol ynghylch rheoli'r risg o dwyll yn ystod 2019/20 a nodwyd sicrwydd rhesymol; fodd bynnag, nid adroddwyd ar hyn i'r Pwyllgor tan 2020/21.

## Amllder Cyfarfodydd

---

51. Er mwyn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau'n effeithiol dylai'r Pwyllgor gyfarfod yn rheolaidd – o leiaf bedair gwaith y flwyddyn, a chael polisi clir ar yr eitemau hynny y bydd yn eu hystyried yn breifat a'r rhai y bydd yn eu hystyried yn gyhoeddus.
52. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Pwyllgor yn ffurfiol ar 5 achlysur, a chynhaliwyd chweched cyfarfod i benodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd. Ceir gwybodaeth am aelodaeth y Pwyllgor a phresenoldeb mewn cyfarfodydd yn ystod 2019/20 yn [Atodiad A](#)
53. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn ei alluogi i gyfarfod yn breifat ac ar wahân gyda'r archwiliwr allanol a'r Pennaeth Archwilio a Risg os oes angen, er nad oedd angen am hynny yn ystod 2019/20.

## Strwythur ac Aelodaeth

---

54. Mae'r Pwyllgor yn annibynnol i swyddogaethau'r pwyllgor gwaith a sgrwtini ac yn cynnwys aelod annibynnol yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae ganddo hawliau mynediad clir i bwyllgorau/swyddogaethau eraill ac mae'n uniongyrchol atebol i'r Cyngor.
55. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys wyth o aelodau'r Cyngor, gyda chydbwysedd gwleidyddol, a hyd at ddau Aelod Lleyg wedi'u cyfethol a'u penodi gan y Pwyllgor. Dechreuodd y ddau Aelod Cyfetholedig ym mis Mehefin 2017. Mae'r Aelodaeth yn wrthrychol, yn annibynnol, yn wybodus ac â chanddo gymysgedd o arbenigedd.
56. Mae aelodau yn gefnogol o egwyddorion llywodraethu da a'u gweithrediad ymarferol er mwyn cyflawni amcanion sefydliadol. Mae gan aelodau agweddau diduedd ac yn trin archwilwyr, y pwyllgor gwaith a rheolwyr yn deg ac mae ganddynt y gallu i herio'r pwyllgor gwaith ac uwch reolwyr yn ôl yr angen.
57. Yn ei gyfarfod ar 14 Mai 2019, cafodd y Cyngorydd Peter S Rogers ei ethol yn Gadeirydd ar y Pwyllgor a Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) yn Is-gadeirydd.

58. Yn ystod y flwyddyn, mae aelodau wedi mynychu hyfforddiant mewnol ac allanol, a restrir yn [Atodiad B](#), ynghyd â sesiynau briffio mewnol rheolaidd.
59. Mae'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Archwilio a Risg yn bresennol ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Prif Weithredwr, y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r archwiliwr allanol a benodwyd hefyd yn mynychu'n rheolaidd. Mae'r swyddogion hyn yn gallu cael mynediad i'r Pwyllgor, neu'r Cadeirydd, yn ôl yr angen.
60. Gellir gweld Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2019/20 yn [Atodiad C](#). Gallai'r rhaglen newid oherwydd y sefyllfa argyfwng bresennol.

## Cylch Gorchwyl

---

61. Mae arfer dda yn awgrymu y dylai pwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl o dro i dro er mwyn sicrhau ei fod yn briodol. Yn ystod 2018/19, yn dilyn adolygiad llawn o ganllawiau CIPFA yn gynharach yn ystod y flwyddyn honno i gymryd i ystyriaeth newidiadau deddfwriaethol a datblygiadau proffesiynol, cynhaliwyd adolygiad sylweddol o gylch gorchwyl y Pwyllgor i ddiweddarau swyddogaethau craidd y pwyllgor archwilio mewn perthynas â llywodraethiant, rheoli risg, rheolaeth fewnol ac archwilio.
62. Yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl presennol gyda mân newidiadau yn unig i ddiweddarau teitl swydd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151.

## Effeithiolrwydd

---

63. Ar y cyfan mae'r Pwyllgor wedi gweithio yn unol â'i gylch gorchwyl presennol, sy'n cynnwys gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â rôl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu o ran monitro trefniadau rheoli risg, llywodraethiant a rheolaeth fewnol yn y Cyngor.
64. Oherwydd yr argyfwng presennol, ni chwblhawyd yr hunan asesiad yn erbyn Canllawiau Ymarferol Pwyllgorau Archwilio newydd CIPFA ar gyfer Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2018), a gychwynnodd ym mis Mawrth 2020. Yn ddibynnol ar sefyllfa'r argyfwng, gobeithir y bydd yn cael ei gwblhau yn ystod 2020/21.
65. Mae manylion am y gweithredoedd a godwyd gan y Pwyllgor a'u datrysiadau yn cael eu cadw ar y system gorfforaethol ar gyfer tracio gweithredoedd (4action) er mwyn nodi cyfrifoldeb, cofnodi a thracio'r weithred.

## Sylwadau'r Cadeirydd

---

66. Hoffai'r Cadeirydd fynegi ei ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor am eu presenoldeb a'u cyfraniad i waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.

67. Hoffai'r Cadeirydd fynegi ei ddiolch hefyd i'r gweithwyr hynny o fewn y Cyngor sydd wedi mynychu cyfarfodydd ac wedi cyfrannu ac, yn benodol, mae hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i staff y gwasanaethau Cyllid ac Archwilio Mewnol am eu cymorth parod.
68. Mae'r Cadeirydd yn cymryd y cyfle hwn i atgoffa'r Cyngor o bwysigrwydd gwaith y Pwyllgor, sydd hyd yn oed yn fwy perthnasol yn y sefyllfa economaidd bresennol a'r sefyllfa argyfwng o ran sicrhau bod y Cyngor yn cael ei redeg mewn modd effeithiol a'i fod yn sicrhau gwerth am arian.
69. Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda staff y Cyngor er mwyn cefnogi gwelliannau parhaus yng ngweithrediadau'r Cyngor yn 2020/21.

**Y CYNGHORYDD PETER S ROGERS**  
**CADEIRYDD Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU**  
**1 MEDI 2020**

## Atodiad A – Amllder Cyfarfodydd a Phresenoldeb

Aelodau	Cyfarfodydd						Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd
	23/04/2019	14/05/2019	23/07/2019	03/09/2019	03/12/2019	11/02/2020	
Cyng. Peter S Rogers (Cadeirydd)	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Ymddiheuriadau	Presennol	5/6
Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-gadeirydd)	Presennol	Presennol	Presennol	Ymddiheuriadau	Presennol (Cadeirydd)	Presennol	5/6
Cyng. Robert Ll. Jones	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Ymddiheuriadau	Presennol	5/6
Cyng. John Griffith	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	6/6
Cyng. Richard Griffiths	Presennol	Presennol	Heb ei gofnodi	Presennol	Presennol	Presennol	5/6
Cyng. Gwilym O. Jones	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	6/6
Cyng. Dylan Rees	Ymddiheuriadau	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	5/6
Cyng. Alun Roberts	Ymddiheuriadau	Presennol	Presennol	Ymddiheuriadau	Presennol	Presennol	4/6
Cyng. Margaret M. Roberts	Presennol	Presennol	Presennol	Ymddiheuriadau	Presennol	Presennol	5/6
Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	6/6
Cyng. Robin Williams (Deilydd Portffolio Cyllid)	Presennol	Heb ei gofnodi	Presennol	Presennol	Presennol	Presennol	5/6
<b>Cyfanswm ar gyfer y Pwyllgor<sup>1</sup></b>	<b>9</b>	<b>10</b>	<b>10</b>	<b>9</b>	<b>9</b>	<b>11</b>	

<sup>1</sup> Yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bydd y pwyllgor yn cynnwys wyth aelod etholedig a dau aelod lleyg. Bydd cydbwysedd gwleidyddol o aelodau etholedig ac ni fyddant yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ond mae angen i'r deilydd Portffolio Cyllid, cyn belled â bo hynny'n bosib, fynychu pob cyfarfod o'r Pwyllgor.

## Atodiad B – Hyfforddiant a Fynychwyd gan Aelodau 2019/20

Hyfforddiant	Cyng. Peter S Rogers (Cadeirydd)	Mr Jonathan Mendoza (Aelod Lleyg) (Is-Gadeirydd)	Cyng. Robert Ll. Jones	Cyng. John Griffith	Cyng. Richard Griffiths	Cyng. Gwilym O. Jones	Cyng. Dylan Rees	Cyng. Alun Roberts	Cyng. Margaret M. Roberts	Mr Dilwyn Evans (Aelod Lleyg)
Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb	16/05/19			16/05/19			16/05/19			
Ymwybyddiaeth seiber				09/12/19						29/07/19
Atal (Prevent)										12/09/19
Cam-drin pobl hŷn yn y cartref			15/11/19		08/10/19					
Hyfforddiant materion cynllunio			24/10/19	24/10/19	24/10/19	25/11/19	24/10/19		24/10/19	
Rheoli'r Trysorlys	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19	07/11/19
Diogelu				14/11/19			14/11/19	14/11/19		
Rheoliadau Diogelu data cyffredinol				09/12/19						
Diwrnod datblygu CIPFA ar gyfer pwyllgorau archwilio		23/01/20								23/01/20
Ymagwedd genedlaethol tuag at eiriolaeth statudol	05/03/20			05/03/20				05/03/20	05/03/20	

## Atodiad C – Blaen Raglen Waith Arfaethedig ar gyfer 2020/21

Dyddiad	Cyfrifon	Archwilio Mewnol	Archwilio Allanol	Rheoli Trysorlys	Rheoli Risg	Llywodraethu	Arall
<b>Ebrill 2020</b> <b>(Wedi'i ganslo)</b>		Adroddiad diweddaru (gohiriwyd)  Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 (gohiriwyd)	Cynllun Blynyddol 2020 (gohiriwyd)				Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor – Adroddiad y Cadeirydd (gohiriwyd)
<b>Mai 2020</b> <b>(Wedi'i ganslo)</b>							Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd
<b>Mehefin 2020</b> <b>(Wedi'i ganslo)</b>	Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/20 (gohiriwyd)					Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft 2019/20 (gohiriwyd)	
<b>Gorffennaf 2020</b>	Datganiad Cyfrifon Drafft 2019/20	Adroddiad Diweddaru (gohiriwyd)  Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20	Cynllun Blynyddol 2020  Adroddiad Gwella Blynyddol 2019/20 (gohiriwyd)	Adolygiad Blynyddol Rheoli Trysorlys 2019/20	Adolygiad Blynyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg (gohiriwyd)	Adroddiad Yswiriant Blynyddol 2019/20 (gohiriwyd)	

Dyddiad	Cyfrifon	Archwilio Mewnol	Archwilio Allanol	Rheoli Trysorlys	Rheoli Risg	Llywodraethu	Arall
<b>Medi 2020</b>	Argymell ar gyfer cymeradwyae th y cyngor, y Datganiad Cyfrifon 2019/20 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol	Adroddiad Diweddar, gan gynnwys 'Materion/ Risgiau' Archwilio Mewnol sy'n parhau i fod angen sylw  Adolygu'r Siarter Archwilio Mewnol (gohiriwyd)	Adroddiad ar y Cyfrifon i'r rhai hynny sydd â chyfrifoldeb am Lywodraethiant (ISA 260)		Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (gohiriwyd)	Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2019/20 (gohiriwyd)  Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch TGCh 2019/20 (gohiriwyd)  Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Gwybodaeth – adroddiad y SIRO  Adroddiad Blynyddol ar Gwynion, Sylwadau a Chwythu'r Chwiban – adroddiad y Swyddog Monitro  Adroddiad Blynyddol ar	Adolygiad Blynyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu (gohiriwyd)  Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor – Adroddiad y Cadeirydd



Dyddiad	Cyfrifon	Archwilio Mewnol	Archwilio Allanol	Rheoli Trysorlys	Rheoli Risg	Llywodraethu	Arall
						Gydymffurfio â Pholisïau – Adroddiad y Swyddog Monitro	
<b>Rhagfyr 2020</b>		Adroddiad Diweddarau  Adolygiad o'r Siarter Archwilio Mewnol	Adroddiad Cynnydd	Adolygiad Canol Blwyddyn o Weithgareddau Rheoli Trysorlys yn 2020/21	Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol	Adroddiad Blynnyddol Iechyd a Diogelwch Corfforaethol 2019/20  Adroddiad Blynnyddol ar Ddiogelwch TGCh 2019/20	Adroddiad Blynnyddol ar Dwyll a Llygredd  Adolygiad Blynnyddol o Effeithiolrwydd y Pwyllgor Archwilio  Adolygiad Blynnyddol o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu
<b>Chwefror 2021</b>		Strategaeth Archwilio Mewnol ddrafft ar gyfer 2021/22 er ystyriaeth  Adroddiad Diweddarau	Adroddiad Cynnydd	Strategaeth Rheoli Trysorlys 2020/21 yn cynnwys Dangosyddion Darbodus	Adolygiad Blynnyddol o'r Strategaeth Rheoli Risg  Adolygiad o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol (gohiriwyd)	Cynnydd a wnaed ar Adroddiadau gan Reoleiddwyr Allanol  Adroddiad Yswiriant	

Dyddiad	Cyfrifon	Archwilio Mewnol	Archwilio Allanol	Rheoli Trysorlys	Rheoli Risg	Llywodraethu	Arall
		'Materion/ Risgiau' Archwilio mewnol sy'n parhau i fod angen sylw				Blynyddol 2019/20	